



Teitl y Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (54)

Cyfarfod:

Date of Meeting:	15 Mawrth 2016	Venue:	Cyfoeth Naturiol Cymru Maes y Ffynnon Penrhosgarnedd Bangor , Gwynedd LL57 2DW
-------------------------	----------------	---------------	--

Presennol: Ruth Hall (Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadeirydd), Howard Davies, (Cyfoeth Naturiol Cymru, Aelod Bwrdd), Mark Weston (Cymdeithas Ceffylau Cymru), Elfyn Jones (Cyngor Mynydda Prydain), Charles de Winton (Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad), Bernard Griffiths (Undeb Ffermwyr Cymru), Jean Rosenfeld (Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru/Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig), Catherine Williams (Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored Cymru), Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid), Rachel Lewis-Griffiths (NFU Cymru), John Watkins (Llywodraeth Cymru), Jont Bulbeck (Cyfoeth Naturiol Cymru), Joe Roberts (Cyfoeth Naturiol Cymru), Susan Jackson (Cyfoeth Naturiol Cymru), Jerry Herbert (Y Gymdeithas Mynediad Tir a Hamdden), Peter Rutherford (Parciau Cenedlaethol Cymru), Max Grant (Y Gymdeithas Mannau Agored), Angela Charlton (Y Cerddwyr), Adrian Walls (Y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad), Laura Lewis (Glandŵr Cymru), Mark Stafford - Tolley (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Richard Neale (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol)

Obervers: Quentin Grimley (Cyfoeth Naturiol Cymru), Rachel Parry (Cyfoeth Naturiol Cymru), Arthur Lee (Y Cerddwyr Anabl), John Cuthbertson (Y Cerddwyr Anabl), Rob Armstrong (Y Gymdeithas Beicwyr Gwlad), Hedd Pugh (NFU Cymru)

Apologies: Carys Drew (NRW, Ysgrifenyddiaeth), Steve Raynor (Canŵ Cymru), Andrew Stumpf (Glandŵr Cymru), Stuart France (Cyngor Ogofa Cymru), Catrin Dellar (Llywodraeth Cymru), Gwyn Smith (Sustrans), Tom Packham (Dŵr Cymru), Lyn Cadwallader (Un Llais Cymru), Michelle Peters (Cymdeithas Gyrru Cerbydau Cymru), Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru), Ruth Rourke (Y Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad), David Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Kerry Thatcher (Croeso Cymru), Chris Tomley (Y Gymdeithas Mynediad Tir a Hamdden), Paul Donovan (Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored Cymru)

1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Estynnodd Ruth Hall groeso arbennig i Howard Davies, 2^{il} Aelod Bwrdd â buddiant Cyfoeth Naturiol Cymru, a oedd wedi'i benodi yn lle Andy Middleton. Croesawodd hefyd John Cuthbertson ac Arthur Lee o'r Cerddwyr Anabl, a fyddai'n rhoi cyflwyniad am eu sefydliad fel cais i ymuno â Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru. Soniodd Ruth am y broses ymgeisio: y byddai'n gofyn i gynrychiolwyr y Cerddwyr Anabl adael yr ystafell er mwyn i'r Fforwm drafod eu cais a dod i benderfyniad.

Croesawodd Ruth hefyd Catherine Williams o Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored Cymru, a fyddai hefyd yn cyflwyno eitem am waith ei sefydliad.

Dywedodd Ruth ein bod yn awyddus i annog aelodau o'r Fforwm nad ydynt eto wedi cyflwyno eitem i wneud hynny mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, a gofynnodd iddynt gysylltu â Carys Drew pe baent yn dymuno gwneud hynny.

Nodwyd ymddiheuriadau [gweler uchod].

Croesawyd y Dirprwyon canlynol:

- Adrian Walls, a oedd yn dirprwyo dros Ruth Rourke ac yn cynrychioli'r Sefydliad Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Rheoli Mynediad
- Peter Rutherford, a oedd yn dirprwyo dros Anthony Richards ac yn cynrychioli Parciau Cenedlaethol Cymru
- Jerry Herbert, a oedd yn dirprwyo dros Chris Tomley ac yn cynrychioli'r Gymdeithas Mynediad Tir a Hamdden.

2. Y Papur Gwyrdd a'r camau nesaf

John Watkins, Llywodraeth Cymru

Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad [Papur Gwyrdd] ynghylch Gwella'r Cyfleoedd i gael Mynediad i'r Awyr Agored ar gyfer Gweithgareddau Hamdden Cyfrifol.

Nododd John Watkins y cefndir i gyhoeddi papur ymgynghori Llywodraeth Cymru. Yn fras, roedd yr ymgynghoriad yn ymdrin â'r pedwar maes canlynol:

- 1) Gweithdrefnau diwygio (gwella gweinyddiaeth)
- 2) Dileu cyfyngiadau
- 3) Diwygio mynediad
- 4) Hawliau a chyfrifoldebau newydd

Cafwyd bron 6000 o ymatebion i'r ymgynghoriad, ac ers iddo gau, mae Llywodraeth Cymru wedi bod wrthi'n eu dadansoddi a'u crynhoi. Dyma un o'r ymatebion gorau i ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae nifer yr ymwelwyr â gwefan Llywodraeth Cymru hefyd wedi cynyddu, felly, ar y cyfan, bu'n ymarfer cadarnhaol iawn.

Rhoddodd John grynodedb o brif bwyntiau'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. [Gellir lawrlwytho'r papur gwybodaeth llawn y cyfeiriodd John ato yn ystod y cyfarfod yn:

<http://gov.wales/docs/desh/consultation/160324-access-outdoor-recreation-cons-summary-cy.pdf>

Llywodraeth nesaf Cymru fyddai'n gyfrifol am bennu unrhyw gamau gweithredu ar gyfer y dyfodol, a hynny'n seiliedig ar achos busnes i'w datblygu gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Er mwyn llywio'r achos busnes, byddai tystiolaeth yn cael ei chasglu yn ystod 2016-17 i asesu goblygiadau a chostau cysylltiedig newidiadau posibl i ddeddfwriaeth neu gamau gweithredu eraill. Byddai'r gwaith hwn yn cynnwys ystyried ymchwil sefydliadau eraill.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, blaenoriaeth arall yw sicrhau, pan fydd diwygiadau'n cael eu cyflwyno mewn awdurdodau lleol, y bydd awdurdodau'n ymdrin â mynediad at ddibenion hamdden mewn modd cadarnhaol e.e. mewn perthynas â Chynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, Fforymau Mynediad Lleol a dyletswyddau a phwerau eraill sy'n ymwneud â ffiniau.

Pwyntiau Trafod:

Bydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar hawliau tramwy, sydd wedi bod yn cael eu datblygu, bellach yn cael eu cyhoeddi yn gynnar yn nhymor y Cynulliad nesaf.

Mae'r cyfleoedd y gallai newidiadau deddfwriaethol eu cynnig i landlordiaid preifat/ffermwyr wrthi'n cael eu trafod. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i ddweud sut beth fyddai'r diwygiadau, ac felly, i asesu'r effeithiau tebygol ar dirfeddianwyr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ystyried y potensial i leihau'r beichiau arnynt.

Er nad yw'n ymddangos felly, mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws adrannau i annog mwy o weithgarwch corfforol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwaith rhwng Gweinidogion ac Adrannau, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgorau mewnol Llywodraeth Cymru.

O ran y pryderon ynghylch ariannu mynediad at ddibenion hamdden, ymatebodd John Watkins drwy ddweud bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid sylweddol dros nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag,

mater i Lywodraeth nesaf Cymru fydd pennu gwariant cyhoeddus ar gyfer y dyfodol.

JB

Cynigiodd Ruth Hall gefnogaeth barhaus y Fforwm i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu a chyfathrebu am newidiadau deddfwriaethol a newidiadau eraill o ran mynediad at ddibenion hamdden. Croesawodd John y cynnig o gefnogaeth.

Action: 54.1 Jont Bulbeck i ddarparu crynodeb o'r dadansoddiad o ymatebion a ddarparwyd gan John i'r Fforwm

DS: fel y nodwyd uchod, ers y cyfarfod, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad', sydd ar gael yma: <http://gov.wales/docs/desh/consultation/160324-access-outdoor-recreation-cons-summary-cy.pdf>

3. Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored Cymru (WATO) a'r Flwyddyn Antur Catherine Williams, WATO

Oherwydd fformat y cyflwyniad, er mwyn gweld y cyflwyniad llawn, bydd Catherine yn dosbarthu'r sleidiau a ddefnyddiwyd ar wahân.

Eglurodd Catherine fod WATO (Sefydliad Twristiaeth Gweithgareddau Awyr Agored Cymru) yn cynnwys tri sefydliad, sef:

- Antur Eryri
- Grŵp Siarter Awyr Agored Sir Benfro
- Grŵp Darparwyr Gweithgareddau Awyr Agored De Cymru

Mae WATO hefyd yn ceisio sefydlu grŵp cyfatebol i gwmpasu ardal canolbarth Cymru.

Rhoddodd Catherine grynodedb o waith y tri sefydliad o ran:

- Cyfathrebu
- Marchnata a Chyhoeddusrwydd
- Cynaliadwyedd

Mae gan bob grŵp ei Grŵp Siarter Amgylcheddol ei hun, sy'n ymdrin â'r modd y mae'n gweithio a'r negeseuon y mae'n eu cyfleu i gyfranogwyr mewn perthynas â gweithgareddau hamdden cyfrifol, parch at bobl a'r amgylchedd. Mae'r grwpiau'n cael eu cefnogi gan Croeso Cymru, ac maent yn gweithio'n agos ag ef.

Mae Antur Eryri yn canolbwyntio'n benodol ar weithio gyda Croeso Cymru mewn perthynas â'i ymgyrch hyrwyddol, y 'Flwyddyn Antur'. Nod y Flwyddyn Antur yw mynd â phobl ar antur i fannau na fyddent fel arfer yn disgwyl mynd iddynt. Mae'r ymgyrch yn cynnig y cyfle i ddarparwyr gweithgareddau a busnesau eraill arddangos yr hyn sydd ganddynt i'w gynnig. Bydd y flwyddyn, a lansiwyd gan y Dirprwy

Weinidog mewn digwyddiad cyhoeddus, yn dwyn ynghyd gyfres o weithgareddau, ac yn eu hyrwyddo, drwy'r flwyddyn.

Mae Antur Eryri hefyd yn gweithio gyda chymunedau (e.e. yn Llyn Padarn), yn datblygu gwybodaeth ar gyfer gwefannau, yn darparu sesiynau blasu ar gyfer gwahanol weithgareddau, ac yn gwneud gwaith hyrwyddo cysylltiedig.

Mae Fforwm Arfordir Penfro wedi sefydlu Cod Morol Sir Benfro, a'r gobaith yw y bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei ddatblygu mewn mannau eraill, e.e. yng Ngogledd Cymru.

Mae Grŵp Darparwyr Gweithgareddau De Cymru yn canolbwyntio'n fwy ar ddod â darparwyr gweithgareddau ynghyd. Mae hefyd wedi canolbwyntio ar ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio, e.e. osgoi a lleihau effeithiau gweithgareddau mewn ardaloedd sensitif, megis rhaedrau'r Bannau Brycheiniog, drwy raglen hyfforddi.

Mae WATO yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn, a chaiff cynigion allweddol ar gyfer camau gweithredu gan Lywodraeth Cymru eu cyflwyno i'r Senedd ar 29 Ebrill 2016, er mwyn codi proffil y sector awyr agored a'r manteision y mae'n eu cynnig o ran iechyd a lles a'r amgylchedd.

Mae WATO hefyd yn cynnig canllawiau ar achredu darparwyr llety, er mwyn sicrhau mai dim ond gweithredwyr cynaliadwy, sy'n darparu gofal da i gwsmeriaid, sy'n cael eu hachredu gan Croeso Cymru.

Nodwyd bod WATO yn awyddus i gwmpasu canolbarth Cymru. Mae eisoes yn ymwneud â phrosiect Biosffer Dyfi, a allai gynnig y cyfle i wneud hynny. Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau ar wahân, sy'n cwmpasu ardaloedd llai, sydd eisoes â'u timau marchnata eu hunain. Felly, mae angen ystyried sut i lenwi'r bylchau sy'n bodoli.

Action 54.2: Catherine i ddarparu rhestr o ddarparwyr gweithgareddau/llety sy'n gysylltiedig â WATO a dosbarthu'r sleidiau i aelodau'r Fforwm CF

Action 54.3: Peter Rutherford i anfon copi o dempled Aberhonddu. PR

4. **Codau a Chanllawiau Cefn Gwlad: y diweddaraf am waith sy'n mynd rhagddo**

Joe Roberts, Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhoddodd Joe ddiweddariad i'r Fforwm ynghylch y meysydd canlynol o'r gwaith ar Godau Cefn Gwlad:

- Y Cod Cerdded Cŵn
 - Y Cod Defnyddwyr Llwybrau
 - Adolygu'r Canllawiau
-

Ceir adroddiad unigol ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, a fydd ar gael i'r Fforwm.

Y Cod Cerdded Cŵn

Cyhoeddwyd y cod cerdded cŵn newydd i gefnogi'r gwaith ym maes gwybodaeth drawsffiniol. Fodd bynnag, mae angen i'r gwaith droi'r negeseuon yn ymddygiadau cadarnhaol e.e. drwy ysgogiadau ac ymyriadau eraill. Mae'r gwaith yn cynnwys:

Cadwraeth Natur Genedlaethol Ynys Las – monitro ymyriadau er mwyn gweld a oedd y codau newydd yn cael unrhyw effaith ar broblemau o ran baw cŵn. Ymhlith y rhain roedd:

- Lleolwyr GPS i gofnodi a monitro
- Arwyddion newydd a gwell

Roedd arwyddion wedi cael eu gwella i gynnwys gwybodaeth am y canlynol:

1. Lleoliadau biniau baw cŵn
2. Y pellter rhwng biniau

Roedd lleihad o 50% wedi'i weld yn nifer yr achosion o faeddu gan gŵn o ganlyniad i'r ymyriad cyntaf, a lleihad o 85% o ganlyniad i'r ail ymyriad.

Roedd yr arwyddion hefyd wedi cael eu gwella, trwy eu gwneud yn haws eu darllen, lleihau nifer y geiriau, a sicrhau bod y negeseuon yn gofiadwy ac yn unigryw.

Y Cod Defnyddwyr Llwybrau

Mynegwyd yr angen am god o'r fath gan y Fforwm hwn a Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru. Y nod yw hysbysu ac addysgu defnyddwyr llwybrau, p'un a ydynt ar olwynion, ar droed neu ar gefn ceffyl.

Bydd cwmpas y gwaith yn cynnwys:

- Datblygu cod ar gyfer defnyddio llwybrau llinol
- Gweithgareddau cyfreithlon gwahanol, gan gynnwys beth y gall pobl ei wneud mewn lleoliadau penodol
- Sefydlu Gweithgor ar gyfer y Cod
- Darparu cod drafft i Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru
- Ymgynghoriad 12 wythnos â rhanddeiliaid

Bydd strwythur y cod yn cynnwys:

- Canllawiau proffesiynol manwl
- Cod cyffredinol – gyda negeseuon clir i ddefnyddwyr
- Dehongli, cyfathrebu ac addysgu – datblygu negeseuon ac ymyriadau syml ac wedi'u targedu

Y nod yw darparu'r cod terfynol erbyn mis Medi 2016.

Cynlluniau Thematig LIFE N2K

Roedd Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru wedi rhoi cyngor ar ddatblygiad y cynlluniau thematig yng nghyfarfod y Fforwm yn y Trallwng yn 2015. Rhoddodd Joe ddiweddariad ynghylch y blaenoriaethau o ran hamdden a mynediad sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i'r gwaith hwnnw.

Camau Gweithredu â Blaenoriaeth Uchel

- Datblygu methodolegau cyson a defnyddio tystiolaeth wrth wneud penderfyniadau
- Ymchwilio i effeithiau hamdden a sut i liniaru'r problemau a achosir
- Llywio gwaith i weithredu camau 1 a 2
- Defnyddio gwybodaeth mewn cynlluniau strategol – gan Cyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau eraill
- Rheoli mynediad yn barhaus
- Codau/Canllawiau/Addysg – arferion da a chyfathrebu

Camau Gweithredu â Blaenoriaeth Ganolig

- Cysylltu â Phapur Gwyrdd Llywodraeth Cymru
- Cynnal cynlluniau peilot ar safleoedd N2K

Nodwyd bod prosiect LIFE bellach wedi dod i ben. Byddai'r gwaith o fynd ar drywydd yr allbynnau a'r argymhellion yn cael ei brif-ffrydio â Cyfoeth Naturiol Cymru, ond yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael.

Adolygu Canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar Hamdden a Mynediad

Rhoddodd Joe adroddiad ar ganfyddiadau ymgynghoriad a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru â rhanddeiliaid ynghylch ei ganllawiau cyfredol ar hamdden a mynediad. Bydd yr adolygiad yn llywio'r canllawiau y bydd y sefydliad yn eu darparu yn y dyfodol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y we, a gwahoddwyd aelodau o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru, Fforymau Mynediad Lleol ac awdurdodau lleol i fod yn rhan ohono. Cafwyd 64 o ymatebion.

O ran canllawiau a anelir at gynulleidfaoedd proffesiynol, roedd y galw mwyaf am ganllawiau ar hawliau tramwy cyhoeddus a deddfwriaeth mynediad agored. Ar y llaw arall, nid oedd llawer o alw am ganllawiau ar gynllunio digwyddiadau.

Roedd ffafriaeth gref dros gael canllawiau ar y we.

Roedd y flaenoriaeth o ran gwybodaeth ofodol yn ymwneud â mapiau mynediad agored a chyfyngiadau ar fynediad agored. Roedd galw am wybodaeth well am hawliau tramwy cyhoeddus. Nid oedd llawer o alw am ganllawiau ar iechyd a lles na chyfranogiad mewn gweithgareddau hamdden.

Ystyriwyd bod canllawiau Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y cyhoedd yn llai effeithiol yn gyffredinol. O blith y canllawiau hyn, ystyriwyd bod y Cod Cefn Gwlad yn fwy effeithiol.

Y Prif gasgliadau:

- Darparu canllawiau ar-lein
- Darparu dolenni i ganllawiau perthnasol eraill – peidio â dyblygu
- Ymhlith y cynnwys â blaenoriaeth mae deddfwriaeth mynediad a seilwaith mynediad

Pwyntiau Trafod:

Yn ystod y trafodaethau, cydnabuwyd y gallai Cyfoeth Naturiol Cymru wneud defnydd llawer gwell o'r cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill e.e. i hysbysu grwpiau penodol o randdeiliaid a thargedu canllawiau atynt.

Nodwyd bod angen canllawiau eraill ar weithwyr proffesiynol ym maes hamdden a mynediad, darparwyr gweithgareddau a defnyddwyr, ynghyd â mynediad at wybodaeth arall sydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, yn bennaf ynghylch Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig – gan gynnwys ffiniau a Gweithrediadau a Allai Beri Difrod. O ran darparwyr gweithgareddau, byddai hyn hefyd yn eu helpu i ddewis y manau gorau i gynnal eu gweithgareddau a hyfforddi staff.

Action 54.4: Joe Roberts i ddsbarthu dolenni gwe a/neu'r adroddiadau y cyfeiriwyd atynt yn ei ddiweddariad pan fyddant ar gael.

JR

5. Y Cerddwyr Anabl – gwaith y sefydliad a'i gais am aelodaeth o Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru

Bydd sleidiau'r cyflwyniad ar gael yn adran Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru o wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rhoddodd John Cuthbertson, Is-gadeirydd y Cerddwyr Anabl gyflwyniad am waith grŵp y Cerddwyr Anabl a'r modd y mae'n galluogi pobl anabl i fanteisio ar gefn gwlad, hyd yn oed os yw hynny ar sgwter symudedd.

Mae'r grŵp yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad a mwynhad i'w aelodau, yn ogystal â budd cymdeithasol, meddyliol a chorfforol. Mae'n eu galluogi i gwrdd â phobl o'r un anian a mwynhau cefn gwlad. Ar hyn o bryd,

mae'n cynnal tua 30 o deithiau bob blwyddyn, y mae 20-30 o bobl yn rhan ohonynt. Mae'n cwblhau asesiadau risg, yn llunio adroddiadau, ac yn hyrwyddo ei holl deithiau. Yn aml, bydd yn cynghori ynghylch seilwaith sy'n galluogi sgwteri symudedd i gael mynediad i ardaloedd gwahanol. Mae'r grŵp yn gwbl hunangynhaliol, ac mae'n darparu'r holl gyfleustodau sydd eu hangen ar daith.

Un o'r problemau a wynebir yw na ellir agor llawer o gatiâu oddi ar sgwteri symudedd, ond byddai dyluniadau a gosodiadau cywir, neu osod allweddî RADAR yn y man cywir ar gatiâu, yn galluogi hyn i ddigwydd. Bydd adroddiad llawn am waith gan Gymdeithas Ceffylau Prydain mewn perthynas â gatiâu mynediad gwell ar gael ym mis Ebrill i Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru ei weld.

Mae'r grŵp wedi ychwanegu ei lwybrau at ap 'Viewranger' o dan y label 'Walking With Wheels'.

Yna, gofynnodd Ruth i gynrychiolwyr y Cerddwyr Anabl adael yr ystafell tra bo aelodau eraill y Fforwm yn penderfynu eu cais.

Yn dilyn trafodaeth fer, cytunodd yr aelodau yn unfrydol y dylai'r Cerddwyr Anabl ddod yn aelodau o'r Fforwm.

Action 54.5: Ychwanegu'r Cerddwyr Anabl yn aelodau ffurfiol o'r Fforwm, a chynnwys y sefydliad yn holl fusnes y Fforwm yn y dyfodol. CD

6. Cyfraniadau gan bawb ac unrhyw fater arall

Rhannodd yr aelodau uchafbwyntiau eu diweddariadau ysgrifenedig am waith eu sefydliad.

Soniodd Elfyn Jones o Gyngor Mynydda Cymru am ymgyrch codi arian cwmwl newydd y cyngor, sef 'Adfer Ein Mynyddoedd'. Byddai'r arian a godwyd yn cael ei rannu rhwng wyth prosiect llwybrau mynydd yr oedd angen eu hatgyweirio ar frys. Ar hyn o bryd, roedd £13,127 wedi cael ei godi ers i'r ymgyrch gael ei lansio y diwrnod cynt [14 Mawrth 2016]; fodd bynnag, y targed oedd £100,000. Roedd yr ymgyrch yn cynnig manteision megis y profiad o gerdded gyda phersonoliaethau cyfarwydd a mynyddwyr.

Soniodd Jean am gyfarfod diweddar o Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, lle trafodwyd iechyd a mynediad mewn ardaloedd gwledig â mynediad lefel uchel. Roedd yr ymgyrch yn ceisio dylanwadu ar fyrddau iechyd i gydnabod a chefnogi buddion gweithgareddau hamdden.

Dywedodd Richard (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol) fod yr Ymddiriedolaeth wedi cael gwahoddiad i fynd i gyfarfod o Gadeiryddion Fforymau Mynediad Lleol yng Nghymru, a'i bod yn awyddus i weithio'n agosach â Fforymau Mynediad Lleol.

Dywedodd Charles de Winton fod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi bod yn trafod trosglwyddo ei waith ar hawliau tramwy yn ôl i Bowys ac awdurdodau lleol cyfansoddol oherwydd diffyg adnoddau, ac roedd yn awyddus i gofrestru'r pryder hwn o gofio pwysigrwydd mynediad yn y Parciau Cenedlaethol. Nodwyd bod y penderfyniad wedi'i ohirio am y flwyddyn ariannol nesaf o leiaf. Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch goblygiadau lleihau adnoddau a'r bygythiad i hawliau tramwy cyhoeddus a mynediad at ddibenion hamdden mewn awdurdodau lleol (nid Parciau Cenedlaethol yn unig]. Nododd Rosenfeld fod hyn yn adlewyrchu'r duedd i ystyried bod hawliau tramwy cyhoeddus yn gost yn hytrach nag yn ased.

Roedd Rowland Pittard (Cymdeithas yr Hostelau Ieuencid) yn dymuno cofrestru pryder a siom y Gymdeithas nad yw mapiau mynediad agored na mapiau mynediad rhyngweithiol eraill Cyfoeth Naturiol Cymru ar gael mwyach. Nododd fod y Gymdeithas (a llawer o gymdeithasau eraill) wedi cyfrannu gwybodaeth at fapiau mynediad OWoL Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a bod y Gymdeithas wedi darparu mynediad i'r mapiau yn hostelau'r Gymdeithas. Lleisiodd nifer o aelodau eraill, gan gynnwys RL-G o Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, AC (Y Cerddwyr) a JR (cynrychiolydd y Fforymau Mynediad Lleol), eu pryderon hefyd, ynghyd â'u gobaith y gellid datrys y mater hwn yn fuan. Nododd nifer o sefydliadau hefyd eu bwriad i ysgrifennu i Cyfoeth Naturiol Cymru am eu pryderon ynghylch y mater hwn.

Ymddiheurodd Jont ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru ac ailadroddodd y rhesymau a roddwyd yn niweddariad ysgrifenedig Cyfoeth Naturiol Cymru. Dywedodd fod y mapiau wedi'u dileu pan gaewyd gwefan Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Yn anffodus, nid ystyriwyd bod y mapiau rhyngweithiol a oedd wedi'u datblygu i arddangos gwybodaeth OWoL a gwybodaeth arall ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru yn hyfyw. O ystyried pwysigrwydd gwaith arall, nid oedd modd datrys y broblem hon o ran y mapiau rhyngweithiol ar hyn o bryd.

Roedd ateb dros dro wrthi'n cael ei ddatblygu, gyda'r gobaith y byddai ar gael ar y wefan yn ystod y flwyddyn. Dywedodd Jont nad oedd data Glastir yn cael eu harddangos ychwaith.

Nododd y Cadeirydd bryderon aelodau'r Fforwm, a bydd yn eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd.

Action 54.6: Ruth Hall Ruth i gyflwyno'r mater hwn yng nghyfarfod RH nesaf y bwrdd ar ran Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru.

Codwyd y mater yn ymwneud â Swyddogion Llwybr yr Arfordir. Dywedodd Jont ei fod yn cydweithio â'r awdurdodau lleol arfordirol mewn perthynas â'r penodiadau hyn, ac y byddai'n dechrau'r broses recriwtio yn fuan.

7. Unrhyw Fater Arall

Dyweddodd Mark Weston fod yr ymchwil a wnaed gan y Gymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad wedi'i gwblhau, ac y byddai'r Gynghrair Cefn Gwlad yn darparu'r wybodaeth.

8. Dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

- 5 Gorffennaf 2016, Marchnad Da Byw y Trallwng,
- 8 Tachwedd 2016 (Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid Caerdydd Canolog, Stryd Dwyrain Tyndall, Caerdydd CF10 4BB)
- 7 Mawrth 2017 (Swyddfa Cyfoeth Naturiol Cymru, Maes y Ffynnon, Bangor)

Dylai pawb nodi y bydd dyddiadau cyfarfodydd a phapurau bellach ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru:

<http://naturalresources.wales/out-and-about/recreation-and-access-policy-advice-and-guidance/networks-and-partnerships/national-access-forum-for-wales/?lang=cy>
